# Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – 11 Mai 2023

Bydd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru a Jane Clark, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Milfeddygol yr ASB.

## Mae'r agenda'n cynnwys:

- BTOM – Cyd-destun Cymru
- Cyfraniad yr ASB wrth ddatblygu'r BTOM
- Adborth gan rwydweithiau aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) ar BTOM

Mae copi o'r agenda lawn i'w weld ar y dudalen Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau hyn, neu yng ngwaith yr ASB yn gyffredinol, ddod i'r cyfarfod i fynegi barn ac i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb agored.

Gallwch fod yn bresennol wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae modd cyflwyno cwestiynau i'r Pwyllgor ymlaen llaw trwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

## Manylion am y lleoliad

Cynhelir y cyfarfod yn Swyddfa'r ASB yng Nghymru, T? Southgate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW

Bydd modd cofrestru a chael paned o 09:45 cyn i'r cyfarfod ddechrau'n brydlon am 10:00.

## Cadw eich lle a chyflwyno cwestiynau

Anfonwch e-bost i walesadminteam@food.gov.uk os ydych am ddod i'r cyfarfod naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, cyflwyno cwestiwn neu gael mwy o wybodaeth.